**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD(2) 04-05 (COFNODION DRAFFT)**

---

Dyddiad: 09 Mawrth 2006, am 2:00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Swyddfeydd y Cynulliad

Wedi mynychu:

*Aelodau*

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed (Cadeirydd)
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody, Preseli Sir Benfro
Lynne Neagle, Torfaen
Karen Sinclair, De Clwyd
Owen John Thomas, Canol De Cymru

*Comisiynydd Safonau*

Richard Penn

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc Pwyllgor
Gareth Rogers, Dirprwy Glerc Pwyllgor
Peter Jones, Cwnsler i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad
Kathryn Thomas, Ysgrifenyddiaeth

## Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

**Papur –** STD(2) 01-06(01)

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd aelodau'r Pwyllgor.

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas, Glyn Davies a Val Lloyd.

3. Cofnododd y Cadeirydd ei diolch i Brynle Williams am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod ei aelodaeth.

4. Cytunodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2005, yn gofnod cywir.

## Eitem 2: Diweddariad ac Adolygiad o'r Camau oedd yn Deillio o STD(2) 04-05

**Papur – STD(2) 01-06(02)**

5. Nododd y Pwyllgor y papur a chytuno i ohirio'r drafodaeth ar yr unig gam gweithredu hyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod gan y byddai'r mater yn cael ei ystyried yn llawn dan eitem (7) ar yr agenda:

## Eitem 3: Adroddiad y Comisiynydd Safonau

**Papur - STD(2) 01-06(03)**

6. Cyflwynodd y Comisiynydd ei adroddiad a thynnu sylw at y prif bynciau ynddo:

7. Holodd yr aelodau'r Comisiynydd ar ei adroddiad ac fel rhan o'i ymateb amlinellodd y Comisiynydd ei gynlluniau ar gyfer parhau i feithrin diwylliant safonau yn y Cynulliad.

8. Cytunodd yr aelodau hefyd i adolygu'r weithdrefn gwyno newydd, gan geisio barn pawb oedd yn cymryd rhan yn y broses, yn ei gyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 25 Mai, neu ynghynt os oedd angen.

**Camau i'w cymryd:**

**Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu adolygiad o'r weithdrefn gwyno.**

## Eitem 4: Y Weithdrefn Gwyno: Paneli Apêl

**Papur - STD(2) 01-06(04)**

9. Cytunodd y Pwyllgor ar y weithdrefn ar gyfer sefydlu paneli apêl yn ddibynnol ar rai mân newidiadau:

10. Hefyd gofynnodd y Pwyllgor fod y Llywydd a'r Barnwr Llywyddu yn cael gwybod barn y Pwyllgor y dylai ystyriaeth gael ei roi i gydbwysedd rhwng y rhywiau wrth sefydlu paneli apêl. Gofynasant hefyd am eglurhad am wir rôl y 'person annibynnol sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol' fel aelod o'r panel apêl erbyn y cyfarfod nesaf.

**Camau i'w cymryd:**

**Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud mân newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer sefydlu paneli apêl.**

**Yr Ysgrifenyddiaeth i gael eglurhad ar rôl y 'person annibynnol sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol' a nodi hynny wrth y cyfarfod nesaf.**

## Eitem 5: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

**Papur: - STD(2) 01-06(05)**

11. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi fod yr Adroddiad Blynyddol i gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 2 Mai. Wedi iddynt ystyried yr Adroddiad Blynyddol cytunodd yr Aelodau:

    (i) Ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol;
    (ii) Y dylai'r Cadeirydd agor a chau'r drafodaeth gyda chyfraniadau gan Aelodau, fel oedd wedi bod y fformat ar achlysuron blaenorol;
    (iii) Y dylid defnyddio'r cyfle i ddwyn ymlaen y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a gytunwyd o'r blaen gan y Pwyllgor, ar ffurf Cynnig cyfansawdd, a fyddai'n cael ei ddosbarthu ar ffurf drafft gan y Clerc Pwyllgor i gael ei gytuno gan aelodau'r Pwyllgor.
    (iv) Y dylai'r drafodaeth hefyd ymgorffori, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor i Eitem 6 ar yr Agenda, diwygiadau i'r Côd Ymddygiad.

**Camau i'w cymryd:**

**Y Clerc Pwyllgor i ddosbarthu Cynnig draft cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar yr Adroddiad Blynyddol.**

## Eitem 6: Côd Ymddygiad Diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

**Papur: - STD(2) 01-06(06)**

12. Nododd yr Aelodau'r papur a chytuno'n unfrydol y dylid cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i'r Côd gerbron y Cyfarfod Llawn ar 2 Mai ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol.

## Eitem 7: Cofrestr Diwygiedig Buddiannau'r Aelodau: Cofrestru Cronnol Rhoddion a Lletygarwch

Eitem lafar

13. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i aelodau'r Pwyllgor y dylai'r bwriad i sefydlu Pwyllgor i ystyried manylion y Rheolau Sefydlog newydd ar gyfer y Cynulliad yn dilyn Mesur Llywodraeth Cymru roi cyfle i'r Pwyllgor argymell newidiadau sylweddol i Reol Sefydlog bresennol 4. Gwahoddodd y Cadeirydd y Clerc Pwyllgor i roi adroddiad llafar ar yr opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen gydag argymhelliad y Pwyllgor ar gyfer cofrestru cronnol rhoddion a lletygarwch. Wedi iddynt ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd gan y Clerc Pwyllgor,

cytunodd y Pwyllgor i ohirio cyflwyno cofrestru rhoddion a lletygarwch dros gyfnod o 4 blynedd hyd gychwyn y Cynulliad nesaf yn 2007. Byddai hyn yn galluogi'r Pwyllgor Safonau i ystyried cofrestru gwerthoedd cronnol yng nghyd-destun y Rheolau Sefydlog newydd.

## Eitem 8: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.

14. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi fod y ddau gyfarfod nesaf wedi'u trefnu ar gyfer 25 Mai a 29 Mehefin 2006.

15. Gan nad oedd unrhyw fater arall cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn cloi'r cyfarfod am 14:47.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**